Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol

Mae Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol yn gynllun disgresiynol fydd yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Am fwy o wybodaeth, ac i weld a ydych yn gymwys, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/cronfacynhyrchugreadigol

Mae gwybodaeth gyffredinol am Cymru Greadigol ar:

https://www.cymrugreadigol.cymru/cy/ariannu-chefnogaeth

# DYSGU: MADE Cymru – cyrsiau yn dechrau 10 Mehefin 2022

Mae llefydd wedi eu hariannu'n llawn ar gyfer busnesau cymwys bellach ar gael ar raglenni MADE Cymru ar gyfer gweithgynhyrchwyr, 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd'. Mae'r cyrsiau yn dechrau ym Mehefin 2022, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

neu e-bostiwch: MADE@uwtsd.ac.uk

# AROLWG: Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi lansio Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth sy'n galw ar gyflogwyr i rannu eu profiad presennol, gan gynnwys eu barn ar anghenion sgiliau at y dyfodol. Nod yr ymchwil yw i gael gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau ar draws Gogledd Cymru o ran sgiliau a chyflogaeth er mwyn datblygu eu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth nesaf 2022-25. Bydd yr arolwg yn cau ar 31 Mai 2022, i gymryd rhan, ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/2ZVHFVJ

# LLONGYFARCHIADAU: Pier Garth Bangor yw Pier y Flwyddyn 2022

Mae'r National Piers Society (NPS) wedi cyhoeddi bod gwobr flynyddol Pier y Flwyddyn wedi'i dyfarnu i Pier Garth Bangor ar gyfer 2022. Llongyfarchiadau i'r holl fusnesau ar y pier, Cyngor Dinas Bangor ac Ymddiriedolwyr Ffrindiau Pier Garth Bangor sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y blynyddoedd i gynnal y safle unigryw hwn yng Ngwynedd. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, ewch i:

https://www.bangorpier.org/cy/

# TECH: Arddangos Datrysiad SMART – Digwyddiad Route Media 25 Mai 2022

Mae systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd. Mae Route Media, sy'n darparu datrysiadau cyfryngau awyr agored sy'n helpu cwmnïau i gyflawni nodau hysbysebu drwy ddarparu dulliau amgen i gyrraedd cynulleidfaoedd targed, yn cynnal Arddangos Datrysiad Tref SMART ar-lein ar 25 Mai 2022 (12:00pm-1:30pm). Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3NsI50Y

## BWYD A DIOD: Cymru: Cyrchfan Bwyd – arian ychwanegol

Mae prosiect Cymru: Cyrchfan Bwyd, rhan o raglen Sgiliau Bwyd Cymru a gyflenwir gan Lantra, wedi derbyn rhagor o arian, hyd at Tachwedd 2022, i helpu busnesau yng Nghymru o'r sector lletygarwch i gyrchu, gweini a gwerthu mwy o gynnyrch Bwyd a Diod o Gymru. Mae Lantra yn ceisio barn rhan ddeiliaid am y math o gyrsiau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnig. Gallwch gysylltu â nhw ar:

wales@lantra.co.uk

Mae gwybodaeth gyffredinol am Sgiliau Bwyd Cymru ar gael ar:

https://www.foodskills.cymru/cy/hafan/

## BREXIT: Gweminarau ar gyfer defnyddio Marciau Asesu Cydymffurfiaeth Newydd

Mae gweminarau sy'n rhoi trosolwg o'r cyfrifoldebau a'r rheoliadau newydd ar gyfer busnesau gweithgynhyrchu wrth ddefnyddio marc newydd UKCA (Asesiad Cydymffurfiaeth y DU) i roi nwyddau ar y farchnad ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) i'w gweld ar:

https://bit.ly/3Ls1wpf

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru